

ATGOFION O'R BORTH

Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy

Menai Bridge and District Civic Society

MEMORIES OF MENAI BRIDGE

Mae Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy yn diweddar ei chofnodion, ffotograffau a'i Gwefan er mwyn ei gwneud yn haws i'r aelodau eu gweld. Byddwn yn ceisio ychwanegu at y rhain yn gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn cyhoeddi pigion gyda'ch Cylchlythyr. Mae croeso mawr bob amser i gyfraniadau newydd, yn ogystal â help i adnabod pobl yn y lluniau.

Ewch i'n Gwefan yn www.menaibridgecivicsociety.org.uk

Menai Bridge Civic Society is updating its records, photographs and Website to make them more accessible to members. We will try to add to these regularly throughout the year and publish extracts with your Newsletter. New contributions are always welcome, as is help with identifying people in photographs.

See our Website at www.menaibridgecivicsociety.org.uk

Atgofion o'r Borth

Rhifyn 10



Rowland Williams, ar y chwaith, a Wil (Rallt) ar ei drol – yn danfon llaeth; gatiâu'r pier yn y cefndir.

Yn ein hadran Atgofion, rydym fel arfer wedi adrodd hanes un person; ond yn y rhifyn hwn rydym yn adrodd hanes cryno teulu ar draws dwy genhedlaeth - teulu Rowland Williams o Glyn Derw, Ffordd y Ffair; fe helpon nhw i adeiladu Porthaethwy.

efydlwyd **Rowland Williams & Sons, Wheelwrights & Builders, Funeral Undertakers** tua throad y ganrif, sef 1900. Roedd Rowland yn dod o Amlwch a'i wraig Anne o Lanllyfni. Roeddent yn byw i ddechrau yn y tŷ ar gornel Ffordd Cynan a'r Stryd Fawr, a fu unwaith yn dŷ tafarn, ac yna aethant i fyw yn 22, Cilbedlam, lle'r oedd llain fach o dir yng nghefn yr eiddo a brynwyd gan Rowland maes o law. Dyma lle codwyd ei weithdy cyntaf, roedd yn gweithio fel saer troliau - mae'r hen weithdy'n dal i sefyll, bellach yn eiddo i berchennog Bennett Homes. Oddi yno llwyddodd i berswadio Asiant Tir Ardalydd Môn i osod tir iddo yn Ffordd y Ffair, ac adeiladodd y tŷ o'r enw Glyn Derw (tŷ brics coch gyferbyn â'r Orsaf Fysiau) ac wrth ei ochr adeiladodd weithdy a siediau i storio pren.

Adeiladwyd y tŷ yn 1904 a bu busnes Rowland Williams a'i Feibion, Seiri Trol ac Adeiladwyr, Ymgwymerwyr Angladdau yn masnachu tan 1982, pan fu farw ei fab-yng nghyfraith, Edward Trefor Williams.

Roedd Rowland Williams yn cyflogi un ar ddeg o seiri ac adeiladwyr yn ei weithdy a'i iard yn Ffordd y Ffair. Fel saer ac adeiladwr medrus, roedd yn gwneud pob math o droliau bach, fel certi cŵn, troliau adeiladwyr, berfâu, ayb. yn gwerthu llawer ym mhob cwr o Ynys Môn. Roedd gan y rhan fwyaf o adeiladwyr a seiri gwledig fusnesau eraill megis bod yn drefnwyr angladdau. Yn y dyddiau cynnar hynny roedd Rowland yn berchen ar goed yn y

goedwig fechan ger y cae pêl-droed, a byddai'n cwmpo'r rhain, yn eu sychu ac yn defnyddio'r pren i wneud eirch. Roedd rhai o'r angladdau mwyaf yn anferth yn ôl safonau heddiw; roedd 500 o geir yn bresennol yn angladd y bardd Cynan. Yn nyddiau cynnar y gwaith trefnu angladdau, cyn bod cerbydau modur mor gyffredin â hynny, cai'r hers ei thynnu gan ddau geffyl du. Roedd yr hers yn cael ei hurio drwy fecws Chisholm (lle mae'r tecawê Tsieineaidd erbyn hyn, nesaf at Siop Moss, Stryd y Bont) ac fe'i cadwai yng nghefn y becws. Byddai'n llogi'r ceffylau o'r ffermydd lleol ac yn eu haddurno â phlu duon.



Angladd Dr Thomas Charles Williams, 1927, Gweinidog Capel y Methodistiaid Calфинаidd. Y Trefnydd Angladdau yw Rowland Williams, sy'n dilyn yr orymdaith gyda'i feibion.



1928 – y 'Queen of the Menai Straits' gyntaf, y Frenhines Megan.

Roedd gan Rowland deulu mawr, pum mab a phedair merch a dau blentyn a gollwyd yn eu babandod, a bu ei deulu'n chwarae rhan amlwg ym mywyd y Dref. Mae'n anodd dweud pwy a gyfrannodd fwyaf, ond os edrychwn ar un chwaer ac un brawd, bydd gennych syniad. Yn 1928 coronwyd Megan yn Frenhines gyntaf yr Afon Menai gan Megan Lloyd George (AS Môn ar y pryd). Roedd y Carnifal cyntaf yn achlysur enfawr a gellir gweld ffilm newyddion Gaumont ohono ar YouTube. Aeth Megan i ddysgu yn Gaerwen a phriododd Glyn Owen o Groseriaid W. Owen yn Stryd Fawr, Bangor.

Ymunodd Idris â *Bomber Command* yr Awyrlu pan oedd yn 18 mlwydd oed. Mae ei hanes yn swnio fel rhywbeth allan o 'Roy of the Rovers'. Cymerodd ran mewn nifer o gyrchoedd mawr a bu'n rhaid iddo barasiwio i ddiogelwch. Ar un achlysur, yn ôl dyddiadur ei dad, glaniodd yn ardal Bethesda/Betws-y-Coed a chael ei drin fel arwr pan lwyddodd i ddarbwylllo'r heddlu lleol nad ysbïwr mohono a chafodd ddod adre ar ymweliad i Glyn Derw. Yn anarferol mae ffilm newyddion ar gael o Idris hefyd (Pathe News 1942 - cyrch ar waith Renault) a gellir gweld honno ar YouTube hefyd.



Trefor, Idris, Rol, William, Glyn



Rol, Blodwen ac Idris

Roedd yn dipyn o 'pinyp' i'r RAF. Gwisgai ei arwyddlun *Caterpillar Club* gyda balchder mawr. Roedd Idris yn bêl-droediwr da ac ailymunodd â Theigrod Porthaethwy fel canolwr. Roedd yn rhan o'r tîm a enillodd Gwpan Iau Gogledd Cymru yn 1947/8. Roedd ef a'i ffrindiau niferus yn mwynhau eu hunain ar ôl gwaith yn mynd i'r tafarndai/gwestai a'r dawnsfeydd ym Mangor a dyna lle y cyfarfu â'i wraig, Kathleen O'Brien o Benbedw yn Sir Gaer, sydd bellach yn

byw yng Nghilgwri. Byddai Kathleen a'i chwaer yn dod i Fangor yn aml i aros gyda'u nain yn Ffordd Caernarfon, ger hen Olchdy Bangor. Roedd y ddwy yn gwirioni ar ddawnsio a byddent yn aml yn mynd i'r *Ambassadors Club*, y tu ôl i siop Johnnie Sixpence yn y Stryd Fawr (siop gigydd Williams erbyn hyn), Clwb Cymdeithasol Nyrsys



Y Frenhines Megan yn cyfarch Brenhines newydd



TOP ROW J HUGHES D H DAVIES J E GREESTY J JOHNSON H PARRY
CENTRE C M ALFORD W MILLWARD R J WILLIAMS I WILLIAMS J B COWELL A POPPLEWELL T LOCK J S EVANS R G WILLIAMS
FRONT T HUGHES C JONES W ROBERTS T WILLIAMS G I HAWKES E WILLIAMS

Ysbyty'r C and A (lle mae Archfarchnad Morrisons), hanner ffordd i lawr Allt Glanrafon; a'r clwb uwchben siop Burton. Symudodd Idris i ffwrdd i weithio yn y Cotswolds ac yn drist iawn, bu fawr pan oedd ond yn 44 oed.

Rydym yn ddiolchgar i Selwyn ac Ieuan Williams am rannu hanes eu teulu, sef eu Taid, eu Tad, eu Hewythrod a'u Modrybedd, gyda ni.